Cyngor Tref
Penmaenmawr
Town Council

Gaeaf
Rhagfyr 2024 – Chwefror 2025

Yn y rhifyn yma:

- Neges y Maer
- Sylw i ysgol
- Digwyddiadau i ddod
- Hydref Llwyddiannus
- Datblygiadau Diweddar



Pen i Bapur

Tynnwyd y llun gan:
Tom Brekke

Neges y Maer



Ar ninnau yng nghanol misoedd y gaeaf, mae eich cynghorwyr chi'n ymwybodol bod pethau'n parhau i fod yn anodd, a bod costau byw'n parhau i fod yn ystyriaeth fawr i lawer o bobl. Felly, rydyn ni wedi adnewyddu ein hymrwymiad i ddarparu Hybiau Cynnes drwy gydol y misoedd oeraf, gan ddechrau ym mis Ionawr. Rydyn ni'n bwriadu archebu'r Ganolfan Gymunedol er mwyn darparu llecyn cymdeithasol clyd i bobl ddod at ei gilydd gyda byrbrydau'n cael eu darparu – gan gynnwys cawl a rôl, bisgedi, cacennau a ffrwythau. Ar hyn o bryd rydyn ni'n ceisio sicrhau arian grant fel bod y cyfleuster yma ar gael i drigolion am ddim. Cadwch lygad am gyhoeddusrwydd yn hysbysebu'r sesiynau Hwb Cynnes lleol.

Er ein bod ni wedi dod allan o'r prif dymor tyfu, mae angen gofal o hyd ar ein gerddi a'n mannau cyhoeddus ni, ac mae ein grwpiau gwirfoddol ni'n gwneud gwaith gwych yn cadw'r pentrefi'n edrych yn hardd. Felly, fe hoffwn i fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch yn gyhoeddus i Grŵp Garddio'r Ddau Dwnnel am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i'r potiau plannu, y basgedi a'r blodau yn Nwygyfylchi a'r holl waith maen nhw'n ei wneud yn Eden Hall. Bydd gwirfoddolwyr Dau Dwnnel ac aelodau ein Grŵp Parciau, Rhandiroedd a Gerddi newydd ni yn brysur hefyd nawr yn cynllunio a chlirio ar gyfer y flwyddyn nesaf. I gael mwy o wybodaeth, edrychwch ar yr erthyglau ar dudalennau 6 i 7.

Drwy gyflawni'r cyfrifoldebau ar gyfer swyddfa Cyngor Tref Penmaenmawr, Clerc Dros Dro y Dref a dyletswyddau'r Maer, mae gwaith y cyngor wedi parhau, ac mae Pwyllgorau CTP yn gwneud cynnydd gyda chyflawni rhai o'n blaenoriaethau allweddol:

- → Mae ein Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau wedi bod yn brysur yn datblygu calendr digwyddiadau i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu adloniant am ddim i deuluoedd drwy gydol y flwyddyn;
- → Mae ein Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid wedi bod yn gweithio ar ffyrdd arloesol o reoli – a chynyddu – ein portffolio o asedau i ddarparu cyfleusterau i'r trigolion ac ymwelwyr, gan gynnwys parcio am ddim, cyfleusterau toiled, gofod gwyrdd a sgipiau cymunedol;
- → Cyfathrebu â'r trigolion – dyma ein trydydd rhifyn ni o Pen ar Bapur – diolch i chi am eich adborth cadarnhaol a'ch syniadau ar gyfer erthyglau.

Dyma ddymuno seibiant Nadoligaidd da i bawb a gobeithio y bydd 2025 yn dod â gwell rhagolygon i bob un ohonom ni.

Sylw i Ysgol...

Mae'r eitem Sylw i Ysgol yn y rhifyn yma wedi cael ei hysgrifennu gan Gorff Llywodraethu Ysgol Capelulo:



Fe ddaeth aelodau o gymunedau Penmaenmawr a Dwygyfylchi at ei gilydd i gefnogi'r ysgol leol, Ysgol Capelulo, mewn 'Diwrnod Tacluso'r Goedwig Fechan', i wneud Coedwig Fechan a gardd gefn yr ysgol yn ddiogel ac yn hygyrch i ddysgwyr ifanc.

Treuliodd gwirfoddolwyr – gyda digon o de, coffi a bisgedi – fore heulog yn torri gwrychoedd, coed a llwybrau oedd wedi gordyfu, yn ogystal â phaentio ystafell ddosbarth dysgu yn yr awyr agored yr ysgol, a gwneud gofod awyr agored yr ysgol bentref boblogaidd yma'n llecyn perffaith yn gyffredinol ar gyfer dysgu.

Dywedodd Nicola, Llywodraethwr yn yr Ysgol: "Roedd yn ddiwrnod gwych ac roedd yn anhygoel gweld faint o gefnogaeth sy'n bodoli yn y gymuned i'n hysgol fach ni. Rydw i'n falch iawn bod yr holl blant nawr yn gallu mwynhau'r gofod yma ac mae eu dysgu'n cael ei gyfoethogi gan eu cyfraniadau gwych."

Mae plant Ysgol Capelulo yn mwynhau gwersi awyr agored wythnosol bellach, strategaeth sydd wedi dangos ei bod yn gwella canlyniadau dysgu ym mhob maes o'r cwricwlwm, o ddarllen a mathemateg, i wyddoniaeth a'r celfyddydau. Mae'r ysgol yn ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr am eu hymdrechion gwerthfawr iawn.

Cyfarfodydd y Cyngor:

Cynhelir y cyfarfodydd am 7pm ar nosweithiau Llun. Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddod iddyn nhw wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Gymunedol Penmaenmawr, neu ar Zoom.

Rhagfyr 2024

2il Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid
9fed Pwyllgor Cynllunio a'r Amgylchedd
16eg Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau

Ionawr 2025

6ed Cyfarfod Llawn o'r Cyngor
13eg Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid
20fed Pwyllgor Cynllunio a'r Amgylchedd
27ain Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau

Chwefror 2025

3ydd Cyfarfod Llawn o'r Cyngor
10fed Pwyllgor Llywodraethu a Chyllid
17eg Pwyllgor Cynllunio a'r Amgylchedd
24ain Pwyllgor Llesiant, Ymgysylltu a Digwyddiadau

Digwyddiadau i ddod

I fynychu cyfarfod ar Zoom, cyflwyno cais i siarad am eitem ar yr agenda, neu am fwy o wybodaeth, ffoniwch 01492 623221, neu e-bostiwch admin@penmaenmawr.org

Edrychwch ar wefannau a chyfryngau cymdeithasol y sefydliadau unigol am wybodaeth ychwanegol.

Dydd Llun 9fed Rhagfyr	Cinio Nadolig Bwytwyr Hapus	12:00 – 14:00 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Iau 19eg Rhagfyr	u3a Penmaenmawr a'r Cylch	14:00 Mwy o wybodaeth ar: www.penmaenmawru3a.org.uk
Dydd Sadwrn 14eg Rhagfyr	Sgipiau Cymunedol – yn cael eu cyllido gan Gyngor Tref Penmaenmawr	09:00 nes eu bod yn llawn Maes Parcio Ffordd Fernbrook, Penmaenmawr
Dydd Sadwrn 4ydd Ionawr	Sgipiau Cymunedol – yn cael eu cyllido gan Gyngor Tref Penmaenmawr	09:00 nes eu bod yn llawn Maes Parcio Gladstone, Dwygyfylchi, LL34 6PS
Bob yn ail ddydd Llun (o 6ed Ionawr)	Bwytwyr Hapus	12:00 – 14:00 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Bob Dydd Mercher (o 8fed Ionawr)	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Grŵp Paentio	13:30 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Mercher 8fed Ionawr	Sefydliad y Merched Dwygyfylchi – Siaradwr Andrew Murgatroyd, Ceidwad y Glannau Llandudno	19:00 Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, LL34 6AB
Dydd Mercher 15fed Ionawr	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Arddangosfa Artist Ymweld, Jeremy Yates	14:00 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Dydd Mercher 5ed Chwefror	Sefydliad y Merched Dwygyfylchi – CCB a Noson Gymdeithasol	19:00 Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, LL34 6AB
Dydd Mercher 18fed Chwefror	Cymdeithas Gelf Dwygyfylchi a'r Fro – Arddangosfa Artist Ymweld, Ann Lewis	14:00 – 16:30 Maen Alaw, Ffordd Bangor, LL34 6LE
Mwy o ddyddiadau i ddilyn	Sgipiau Cymunedol – yn cael eu cyllido gan Gyngor Tref Penmaenmawr	09:00 nes eu bod yn llawn Manylion i ddilyn…

I ddod yn fuan…

Cadwch lygad ar wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cyngor Tref Penmaenmawr – Hwb Gemau a Bwyd yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Gymunedol Penmaenmawr, o 3pm i 6pm. Darperir gan Gyngor Tref Penmaenmawr – croeso i bob oed!

Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddarparu gwybodaeth gywir ac yn gyfredol, nid yw'r cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am wall neu hepgoriad mewn gwybodaeth am wasanaethau nad yw'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Pan fo angen, caiff copïau digidol o'r cylchlythyr hwn eu diweddaru'n fyw, felly, ar brydiau, efallai y bydd gwahaniaethau rhwng y copïau printiedig gwreiddiol a'r PDFs digidol sydd ar gael ar wefan y cyngor a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Digwyddiadau i ddod

Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau



O fis Medi 2024 ymlaen, cynhelir pob cyfarfod llawn o'r cyngor tref a phwyllgorau yn Neuadd Gymunedol Penmaenmawr, Ffordd Conwy, LL34 6AB. Cynhelir cyfarfodydd ar nos Lun am 7yh.

Mae'r cyngor tref yn gobeithio y bydd y newid lleoliad hwn yn hwyluso presenoldeb yn well ac yn annog aelodau'r gymuned i gymryd rhan. Fel bob amser, mae pob cyfarfod cyngor a phwyllgor yn agored i'r cyhoedd - gall trigolion ofyn i siarad mewn unrhyw gyfarfod lle mae ganddynt ddiddordeb mewn eitem agenda. Os ydych chi am siarad ar eitem agenda, cysylltwch â Chlerc y Dref dim hwyrach na 5yh ar y diwrnod gwaith olaf cyn y cyfarfod perthnasol.

Sylwch, mae'r mannau parcio yn y ganolfan gymunedol yn gyfyngedig.

Dydd y Cofio 2024

Hydref Llwyddiannus



Bu cymunedau Penmaenmawr a Dwygyfylchi yn nodi Sul y Cofio gydag ymdeimlad dwys o barch ac undod eleni, gan adlewyrchu eu gwerthfawrogiad dwfn o'r aberth a wnaed gan aelodau'r gwasanaethau drwy gydol hanes.



Yn Nwygyfylchi dechreuodd y diwrnod gyda chyfarfod cofio wrth y gofeb ryfel leol, lle daeth trigolion, gan gynnwys cyn-filwyr, teuluoedd a phlant, at ei gilydd i anrhydeddu'r rhai sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog. Roedd yr awyrgylch yn llawn ymdeimlad o barch wrth i'r mynychwyr wisgo pabïau, symbol o goffâd, a rhannu straeon am anwyliaid oedd wedi ymladd mewn gwrthdaro amrywiol.

Yn dilyn hyn, fel rhan o'r cofio, cynhaliwyd gwasanaeth a oedd yn cynnwys darlleniadau a gweddïau. Y clerigwyr lleol oedd yn arwain y gwasanaeth, gan bwysleisio pwysigrwydd cofio nid yn unig y rhai sydd wedi colli eu bywydau, ond hefyd y gwerthoedd parhaus o ddewrder ac aberth yr oedden nhw'n eu hymgorffori.



Daeth cymuned Penmaenmawr at ei gilydd mewn arddangosfa hyfryd o undod a pharch yn dilyn gwasanaeth yn yr eglwys, gan nodi'r achlysur gyda gorymdaith Sul y Cofio gyntaf ers sawl blwyddyn. Bu cadetiaid a chyn-filwyr yn cymryd rhan yn y digwyddiad arwyddocaol yma, gan gynrychioli gwrthdaro amrywiol ac arddangos ymrwymiad y dref i anrhydeddu'r rhai sydd wedi gwasanaethu. Roedd yr awyrgylch yn llawn difrifoldeb a balchder wrth i'r trigolion sefyll ar ochr y strydoedd, gan dalu teyrnged i'r aberth a wnaed gan yr unigolion hyn, a myfyrio ar bwysigrwydd cofio wrth feithrin ysbryd cymunedol.



Roedd y digwyddiad nid yn unig yn deyrnged i'r rhai sydd wedi ymladd dros eu gwlad ond hefyd yn ein hatgoffa ni o'r cyfrifoldeb ar y cyd i gofio ac anrhydeddu eu cyfraniadau. Roedd cyfranogiad y gymuned yn yr orymdaith yma'n tynnu sylw at arwyddocâd y cofio ym Mhenmaenmawr, gan gryfhau'r cyswllt rhwng y trigolion a sicrhau bod straeon am ddewrder ac ymroddiad yn cael eu trosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Daeth y diwrnod i ben gyda chyfarfod yn y ganolfan gymunedol, lle bu'r trigolion yn rhannu lluniaeth ac yn sgwrsio am bwysigrwydd cofio, gan sicrhau bod gwaddol y rhai sydd wedi gwasanaethu'n parhau i gael ei anrhydeddu yng nghalonnau a meddyliau cenedlaethau'r dyfodol.

Digwyddiadau Nadolig 2024

Ar ddydd Gwener 29ain a dydd Sadwrn 30ain Tachwedd 2024, dathlodd cymunedau Penmaenmawr a Dwygyfylchi ddechrau tymor yr ŵyl gyda digwyddiadau Nadoligaidd dros y ddwy noson.

Yn Nwygyfylchi, cynhaliodd Eglwys Sant Gwynan wasanaeth carolau hyfryd, yn cynnwys darlleniadau, gweddïau, cofio'r rhai sydd ddim gyda ni bellach y Nadolig yma, a pherfformiadau gwych gan blant Ysgol Capelulo. Yn dilyn y gwasanaeth, darparodd Cynghorwyr Tref Penmaenmawr win neu vimto cynnes, a mins peis, i bawb oedd yn bresennol, cyn ymgynnull wrth goeden Nadolig Dwygyfylchi yn barod ar gyfer y seremoni oleuo. Ar ôl i'r goeden gael ei goleuo, daeth y gymuned at ei gilydd i ganu carolau o amgylch y goeden i gyfeiliant cerddoriaeth wych Band Pres Sant Paul.



Dim ond lle i sefyll oedd yn Eglwys Sant Gwynan ar gyfer y gwasanaeth, sy'n dyst i'r ymdeimlad o ysbryd cymunedol ac undod yn ein pentrefi ni. Daeth plant, teuluoedd, ffrindiau a thrigolion o 2 fis oed i bobl yn eu 90au, a hyd yn oed ein cŵn annwyl ni, at ei gilydd i gyd i gofio anawsterau'r flwyddyn sydd wedi mynd heibio bellach, y gwerthoedd sydd gennym ni ar gyfer ein gilydd yn y presennol, a'n gobeithion a'n gweddïau ni ar gyfer y dyfodol a ddaw yn y flwyddyn newydd.



Daeth y Ffair Nadolig yn ôl i Benmaenmawr, gyda gemau a stondinau Nadolig ar hyd y stryd, a'r byrddau'n cael eu goruchwylio gan gynrychiolwyr o grwpiau cymunedol, busnesau lleol yn agor yn hwyr, ac ymweliad arbennig gan Siôn Corn ei hun yn ein llyfrgell gymunedol ni oedd wedi cael ei throi yn Groto Siôn Corn. Roedd digonedd i'w wneud ar y noson a chafwyd cefnogaeth ardderchog i'r digwyddiad gan y gymuned.



Cyflwynodd Ronald Watson-Jones, neu Rockin' Ron fel mae'n cael ei adnabod, sioe wych, daeth Seindorf Arian y Rhyl ag ysbryd y Nadolig i'r digwyddiad gyda'u perfformiad gwych, a darparodd ein Dirprwy Faer ni, y Cynghorydd James Cook, y cyfrif i lawr er mwyn i Siôn Corn ei hun oleuo Coeden Nadolig Penmaenmawr. Ar ôl goleuo'r goeden, cafodd pawb oedd yn bresennol gyfle i fwynhau perfformiad gwych gan blant Ysgol Pencae.



'Wnaeth y tywydd gwyntog ac ambell gawod yn ystod y Ffair ddim amharu ar frwdfrydedd ein cymuned wych ni ac roedd yn ddigwyddiad arbennig arall ac yn un rydyn ni'n gobeithio adeiladu arno am flynyddoedd i ddod.

Hoffai Cyngor Tref Penmaenmawr ddiolch i bawb a fynychodd y digwyddiad, a phawb a helpodd i'w wneud yn llwyddiant, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: Corvus security ltd. a ddarparodd eu gwasanaethau am ddim i gadw'r Ffair yn ddiogel, Paul Stuart Parry am helpu i gludo byrddau, Eglwys Sant Gwynan, Band Pres Sant Paul, Rockin' Ron, Seindorf Arian y Rhyl, ein hysgolion cymunedol ni, Ysgol Capelulo ac Ysgol Pencae, pob un o'r siopau ar y stryd fawr a arhosodd ar agor yn hwyr ar gyfer y Ffair, y stondinwyr, cardiau ac anrhegion Penmaenmawr a roddodd eu caniatâd i ni fenthyca eu pŵer, ein gwirfoddolwyr cymunedol ni a'r wardeniaid balchder cymunedol a helpodd gyda phopeth o osod y groto yn ei le i sgubo'r llwybrau a goruchwylio'r stondinau gemau, a phawb a helpodd gyda'r sêr cofio.



Dywedodd y Cynghorydd Gavin Parry: "Fe hoffwn i ddiolch i'r gymuned i gyd. Mae bod yn gynghorydd yn llawer o waith ac yn cynnwys cymaint o heriau, mae'r adborth gawson ni wedi bod yn wych. Mae wir yn ei wneud yn werth chweil. Rydyn ni'n benderfynol o adeiladu ar y Nadolig a'i wneud yn ddigwyddiad cymunedol sy'n cefnogi'r stryd fawr a theuluoedd Penmaenmawr, drwy wneud yn siŵr mai'r unig beth sydd arnoch chi angen estyn am eich arian ar ei gyfer yw i brynu rhywbeth i chi'ch hunain yn ein siopau gwych ni! Roedd yn hyfryd gweld a theimlo'r ysbryd cymunedol, gobeithio eich bod chi wedi mwynhau a diolch i chi am wneud yr hyn oedd yn gymaint o waith, yn gymaint o hwyl.



Datblygiadau Diweddar y Cyngor



Mae'r Dirprwy Faer, y Cynghorydd James Cook, a'r Cynghorydd Lara Cook (y ddau yn y llun ar y chwith) wedi rhoi cyflwyniad i Bwyllgor Cynllunio a'r Amgylchedd Cyngor Tref Penmaenmawr:

Mae ein Pwyllgor Cynllunio ni'n chwarae rhan hollbwysig yng ngweithrediaeth y cyngor tref drwy ddarparu fframwaith strwythuredig ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymateb i ymgynghoriadau ynghylch defnydd tir a datblygu. Mae ein pwyllgor cynllunio ni'n hanfodol ar gyfer sicrhau bod polisïau cynllunio lleol yn cyd-fynd ag anghenion a dyheadau'r gymuned, gan hwyluso ymgysylltu â'r cyhoedd a sicrhau tryloywder yn y broses gynllunio.

Mae'r berthynas rhwng y Cyngor Tref a'n Cyngor Sir mwy ni dan straen yn aml oherwydd y gwahanol flaenoriaethau a dulliau o ymdrin â gweithdrefnau cynllunio. Mae'r Cyngor Tref fel arfer yn canolbwyntio ar anghenion lleol a materion penodol i'r gymuned, sy'n gallu arwain at ymateb mwy personol ac uniongyrchol i geisiadau cynllunio. Mewn cyferbyniad, efallai y bydd y Cyngor Sir mwy, ar adegau, yn blaenoriaethu nodau rhanbarthol ehangach, a all anwybyddu nodweddion a gofynion unigryw cymunedau llai fel Penmaenmawr a Dwygyfylchi weithiau. Fe all y gwahaniaeth yma mewn ffocws arwain, ar adegau, at wrthdaro ynghylch penderfyniadau defnydd tir, rheoliadau a neilltuo adnoddau. Mae adegau pan mae'r Cyngor Tref yn teimlo nad yw ei lais yn cael ei gynrychioli'n ddigonol yn y fframwaith cynllunio mwy ac, o'r herwydd, fe all hyn arwain at rwystredigaeth a gall wneud y rôl yn eithaf heriol.

Mae aelodau ein pwyllgor ni'n gwerthuso cynigion, yn ystyried effeithiau amgylcheddol, ac yn mynd i'r afael â phryderon cymunedol. Mae pwyllgor cynllunio CTP yn gweithio i greu mannau cynaliadwy wedi'u dylunio'n dda sy'n gwella ansawdd bywyd y trigolion. Hoffem ddefnyddio dull cydweithredol o feithrin ymdeimlad o berchnogaeth ymhlith aelodau'r gymuned, gan arwain yn y pen draw at ganlyniadau mwy gwybodus a chytbwys sy'n adlewyrchu gweledigaeth gyfunol y gymuned. Fodd bynnag, i gyflawni hyn mae angen cyfranogiad gan ein trigolion ni, felly os hoffech chi fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a'r Amgylchedd neu os hoffech chi drafod pryderon mewn perthynas â cheisiadau cynllunio neu gynigion, cysylltwch â'r swyddfa am ragor o fanylion.

Grŵp Parciau, Rhandiroedd a Garddio CTP

Mae'r Cynghorydd Cathy Augustine wedi rhoi diweddariad ar Grŵp Parciau, Rhandiroedd a Garddio CTP:



Mae gennym ni grŵp garddio gweithgar iawn yn gofalu am botiau Plannu a basgedi CTP ar draws Dwygyfylchi a Chapelulo. Mae'r grŵp yma – Garddio'r Ddau Dwnnel – hefyd yn gwneud gwaith gwych yng Ngerddi Eden Hall (edrychwch ar yr erthygl ar dudalen 7). Mae Cyfeillion Prom Pen yn gweithio'n ddiflino i gadw'r rhan honno o'r traeth yn lân ac mae pot plannu mawr yn cael ei chwynnu a'i gynnal a'i gadw. Mae'r holl waith yma'n denu canmoliaeth a diolch haeddiannol am yr harddwch mae hyn yn ei ychwanegu at ein hamgylchedd ni.

Er hynny, mae llawer o drigolion Penmaenan a Phant-Yr-Afon wedi mynegi eu dymuniad i gyfrannu a helpu i ofalu am yr ochr honno o'r ward. Fel cynrychiolydd y Cyngor Tref dros Benmaenan, mae'r Cynghorydd Cathy Augustine wedi lansio'r fenter newydd yma gan CTP i ddod â'r trigolion, gwirfoddolwyr a chefnogaeth allweddol gan CBSC at ei gilydd i wneud gwahaniaeth cadarnhaol a real i ymddangosiad ein hamgylchedd ni.

Diolch enfawr i'r holl drigolion sydd wedi cyfrannu eu hamser, eu syniadau gwych a'u hegni cadarnhaol at ddau gyfarfod trefnu cyntaf y grŵp newydd. Roedden ni'n ddiolchgar iawn i Phil o Mannau Agored CBSC a Gwyl o Cadwch Gymru'n Daclus am eu cynigion o gefnogaeth mewn ffyrdd ymarferol amrywiol, gan gynnwys cyfarpar, offer, cael gwared ar sbwriel a sefydlu "hwb taclus". Hyfryd hefyd oedd cael cefnogaeth ein Maer a'n cynghorwyr tref ni, a ymunodd â'r cyfarfod cyntaf.

Fe wnaethon ni gytuno y byddai ein rhestr o bethau "i'w gwneud" yn cynnwys – potiau plannu, basgedi crog, casglu sbwriel, glanhau strydoedd, a chlirio gordyfiant a dail. Byddwn hefyd yn gwneud yn siŵr ein bod yn cael ein harwain gan strategaeth gynaliadwyedd, defnydd o blanhigion brodorol, ystyriaethau bioamrywiaeth a chefnogi bywyd gwyllt.

Dywedodd y Cynghorydd Cathy: "Roeddwn i wrth fy modd bod y grŵp wedi gofyn i mi fod yn Gadeirydd arno a chysylltu â CTP a CBSC i sefydlu grŵp 'Cyfeillion'. Mae gennym ni bwyllgor o bedwar bellach, a Chyfansoddiad a Chylch Gorchwyl, a chynhaliwyd ein sesiwn glirio gyntaf ni ar yr 11eg o Ragfyr – mewn dim ond awr, fe lenwodd y gwirfoddolwyr bedwar bag mawr o wastraff gwyrdd i'w gasglu gan CBSC."

Byddwn yn newid dyddiau'r wythnos i ddarparu ar gyfer pobl ag apwyntiadau rheolaidd ar ddyddiau penodol a byddwn hefyd yn ychwanegu sesiynau penwythnos. Os hoffech chi gymryd rhan, cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

Gerddi Eden Hall

Mae'r Cynghorydd Cathy Augustine wedi darparu'r erthygl ganlynol – "O Adfer i Hygyrchedd, Diogelu Dyfodol Gerddi Eden Hall":



Fe wnaeth tywydd braf yr hydref wneud ymweliad safle â Gerddi Eden Hall yn fwy o bleser fyth wrth i swyddogion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) gwrdd â gwirfoddolwyr ymroddedig o Grŵp Garddio'r Ddau Dwnnel ar Fedi 16eg.

Roedden ni yno ar gyfer yr ymgynghoriad diweddaraf i drafod gwaith sylweddol sydd wedi'i gyllido gan grant i adfer y gofod hanesyddol yma. Roedd yr ymweliad yn ddilyniant i gyfarfodydd yn gynharach eleni, nawr bod contractwr wedi'i ddewis i wneud rhywfaint o waith tirlunio sylweddol.



Wedi'u cynllunio i adfer harddwch a llwybrau cerdded y gerddi Fictoraidd hanesyddol, mae'r cynlluniau'n diweddaru'r cynlluniau plannu drwy ychwanegu fflora brodorol. Dywedodd y Cynghorydd Cathy: "Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at weld y cynllun plannu terfynol – ond fe gawsom ni flas ar sut gallai'r ffiniau edrych unwaith y bydd planhigion ychwanegol yn cael eu hychwanegu yn unol â'r strategaeth bioamrywiaeth".

Braf oedd cyfarfod â'r ddau dyfwr coed sy'n byw yn y pentref, felly byddwn yn gweithio'n gydymdeimladol gyda'r lleoliad wrth leihau nifer y coed sydd angen sylw. Roedd yn arbennig o braf gweld bod y cynlluniau hefyd yn cynnwys ardaloedd newydd i wella hygyrchedd fel bod y rhai ohonon ni sydd â symudedd cyfyngedig, bygis a chadeiriau olwyn ac ati yn dal i allu symud yn hwylus o amgylch ein gardd wych.



Hoffem ddiolch i swyddogion CBSC, ac yn enwedig y gwirfoddolwyr cymunedol, am wahodd y Cynghorydd Cathy i'r holl gyfarfodydd ymgynghori ar y safle. Mae briff tirlunio a'r cynllun plannu cychwynnol wedi'u cytuno bellach, sy'n gyffrous iawn oherwydd, wrth gwrs, bydd y plannu'n dod â'r gerddi'n fyw drwy gydol y flwyddyn.

Edrychwn ymlaen at ymweld wrth i'r gwaith fynd rhagddo a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cymuned ni wrth i ni agosáu at y dyddiad cwblhau, sef diwedd gwanwyn 2025.

Os yw eich grŵp cymunedol yn dymuno cael ei ddigwyddiadau a'i weithgareddau wedi'u cynnwys yn Pen i Bapur, neu os oes gennych newyddion neu gyhoeddiad yr ydych yn dymuno ei rannu gyda'ch cymuned leol, byddem yn falch o glywed gennych! Cysylltwch â'r Cynghorydd Becca Snell trwy e-bost ar Becca.Snell@penmaenmawr.org am ragor o wybodaeth.

Eich Cynghorwyr Tref

Am ragor o wybodaeth am newyddion a digwyddiadau Cyngor y Dref, ewch i wefan Cyngor Tref Penmaenmawr.

Sganiwch fi!



Cyng. Steven Consterdine
(Maer)
Capelulo
steven.consterdine@
penmaenmawr.org



Cyng. Sarah Williams
Capelulo
Sarah.Williams@
penmaenmawr.org



Cyng. Becca Snell
Capelulo
Becca.Snell@
penmaenmawr.org



Cyng. Malcolm Bleasdale
Capelulo
Malcolm.Bleasdale@
penmaenmawr.org



Cyng. James Cook
(Dirprwy Faer)
Capelulo
James.Cook@
penmaenmawr.org



Cyng. Lara Cook
Pant-yr-Afon
lara.cook@
penmaenmawr.org



Cyng. Colin Brooks Williams
Pant-yr-Afon
Colin.williams@
penmaenmawr.org



Cyng. Lisa Goodier
Pant-yr-Afon
lisa.goodier@
penmaenmawr.org



Cyng. Gavin Parry
Pant-yr-Afon
Gavin.Parry@
penmaenmawr.org



Cyng. Judith Priestnall
Pant-yr-Afon
judith.priestnall@
penmaenmawr.org

Swydd wag
Pant-yr-Afon
(Cysylltwch â'r swyddfa os oes gennych ddiddordeb wrth ymuno â ni!)



Cyng. Cathy Augustine
Penmaenan
cathy.augustine@
penmaenmawr.org



Cyng. Jack Sterriker Ellis
Penmaenan
Jack.Sterriker.Ellis@
penmaenmawr.org

Swydd wag
Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol
clerk@
penmaenmawr.org

Swydd wag
Dirprwy Glerc
admin@
penmaenmawr.org

Gwybodaeth Swyddfa:

Oriau: Llun – Gwener, 10yb – 2yp

Cyfeiriad: The Town Office & Chamber,
Canolfan Gymunedol Penmaenmawr, Ffordd
Conwy, Penmaenmawr, Conwy, LL34 6AB

Ffôn: 01492 623221 **Gwefan:** www.penmaenmawr.org

Gwasanaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

- ✓ Hamdden a Gwasanaethau Diwylliannol
- ✓ Gwastraff ac Ailgylchu
- ✓ Lechyd a Gofal Cymdeithasol
- ✓ Priffyrdd a Thrarnidiaeth
- ✓ Cynllunio
- ✓ Tai
- ✓ Addysg
- ✓ Trwyddedu
- ✓ Treth y Cyngor
- ✓ Cynllunio Brys

Ydych chi'n siŵr eich bod yn cysylltu â'r Cyngor cywir?

Dyma restr o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Sir, yn hytrach na'ch Cyngor Tref…

Am ragor o wybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ewch i'w gwefan:

Sganiwch fi!

Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i ddarparu gwybodaeth gywir ac yn gyfredol, nid yw'r cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am wall neu hepgoriad mewn gwybodaeth am wasanaethau nad yw'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Pan fo angen, caiff copïau digidol o'r cylchlythyr hwn eu diweddaru'n fyw, felly, ar brydiau, efallai y bydd gwahaniaethau rhwng y copïau printiedig gwreiddiol a'r PDFs digidol sydd ar gael ar wefan y cyngor a'r llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.